

Crynodeb o'r trafodaethau yng nghyfarfod mis Mawrth 2021 Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Dywedodd Cyfarwyddwr Polisi'r ASB, Rebecca Sudworth wrth y Bwrdd fod yr holl baratodau dan arweiniad yr ASB ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio ar 1 Ionawr wedi'u cwblhau mewn pryd. Esboniodd fod yr ASB bellach yn canolbwyntio ar weithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), cydweithwyr eraill ar draws y Llywodraeth, a rhanddeiliaid o bob sector y diwydiant ar gyflwyno mesurau rheoli ar y ffiniau penodol yn raddol a oedd gynt yn rhan o gytundeb masnach yr UE.

Pwysleisiodd fod yr ASB yn parhau i roi adnoddau ac ymdrech i weithio gyda busnesau i sicrhau eu bod yn deall sut i weithio yn yr amgylchedd newydd ar ôl y Cyfnod Pontio, yn enwedig mewn perthynas â goblygiadau Protocol Gogledd Iwerddon.

Dyweddodd Prif Weithredwr yr ASB, Emily Miles wrth y Bwrdd am rai meysydd gwaith cyfredol yr ASB sydd â blaenoriaeth. Atgoffodd fusnesau CBD am y dyddiad cau sy'n agosáu ar gyfer ceisiadau bwyd newydd CBD, gan annog busnesau i gyflwyno eu ceisiadau i'r ASB cyn 31 Mawrth 2021 gan mai awdurdodi bwyd newydd yw'r unig lwybr i gydymffurfio.

Rhoddodd Emily drosolwg i'r Bwrdd o ddau achos parhaus o Salmonella sy'n gysylltiedig â chynhyrchion cyw iâr mewn briwsion bara wedi'u rhewi a manteisiodd ar y cyfle i atgoffa'r cyhoedd i wirio'r cyfarwyddiadau coginio ar ddeunydd pecynnu bwyd, i goginio bwyd ar y tymheredd cywir ac am yr amser cywir i sicrhau bod unrhyw facteria niweidiol yn cael eu lladd.

Fe wnaeth Emily hefyd ddiweddarau'r Bwrdd ar ymgynghoriad cyhoeddus dan arweiniad Defra ar dechnolegau genetig. Hysbyswyd y Bwrdd gan y Cadeirydd, Ruth Hussey am ei bwriad i ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Defra gan bwysleisio'r angen am oruchwyliaeth reoleiddio briodol a chyson i'r technolegau newydd hyn i fagu hyder yn eu defnydd ynghyd â phwysigrwydd darparu gwybodaeth glir i'r defnyddiwr.

Yng nghyfarfod y pwyllgor busnes ddoe, trafododd y Bwrdd effaith COVID-19 a'r heriau digynsail ar awdurdodau lleol wrth gyflawni eu swyddogaethau bwyd statudol. Ym [mis Rhagfyr cytunodd Bwrdd yr ASB](#) fod canllawiau a chynghor cyfredol yr ASB ar gyfer awdurdodau lleol yn rhoi'r fframwaith gorau posibl ar gyfer y tymor byr ac y dylid eu hymestyn y tu hwnt i fis Ionawr 2021 tan ddiwedd mis Mehefin 2021. Mae'r ASB wedi addasu ei disgwyliadau o awdurdodau lleol oherwydd COVID-19, gan gydnabod y gellir gohirio arolygiadau rheolaidd busnesau bwyd categori risg is lle mae adnoddau awdurdodau lleol wedi'u dargyfeirio i ymateb i'r pandemig; a gofyn i awdurdodau lleol barhau â'r gweithgareddau blaenoriaeth uchel y manylir arnynt yng nghyngor yr ASB.

Cytunodd y Bwrdd fod effeithiau COVID-19 wedi rhoi hwb o'r newydd i'n hymgyrch strategol i ddiwygio rheoleiddiol a chytunwyd y dylai'r ASB edrych ar ddatblygu llwybr allan o'r sefyllfa bresennol lle ceir nifer sylweddol o 'arolygiadau hwyr'.

Mae [agenda lawn a phapurau'r Bwrdd](#) ar gael ar wefan yr ASB. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn ddiweddarach yn yr wythnos.